Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Llangennech Junior School**
**Heol Pontarddulais**
**Llangennech**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 8YB**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Iau Llangennech ym mhentref Llangennech, ar gyrion tref Llanelli, yn Sir Gaerfyrddin.  Mae’r ysgol yn gwasanaethu’r pentref a’r ardal gyfagos.  Mae 197 disgybl, rhwng 7 ac 11 mlwydd oed, ar y gofrestr.  Disgrifir yr ardal fel un nad yw’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.  Mae 11.96% o’r disgyblion â’r hawl i gael prydau ysgol yn rhad ac am ddim, sydd yn is na’r ffigwr cenedlaethol.

Mae gan yr ysgol ddisgyblion o’r ystod gallu llawn.  Mae 29% ohonynt ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig gan gynnwys saith disgybl sydd â datganiad o anghenion dysgu ychwanegol.  Mae’r canran hwn yn uwch na’r canran cenedlaethol.

Daw 87% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Saesneg yn brif iaith.  Mae’r ysgol yn nodi bod 54% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf.  Nid oes plant o gefndir lleiafrifol ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg mewn dwy ffrwd ar wahân.  Ceir pedwar dosbarth lle addysgir y disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg a phedwar dosbarth lle addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Saesneg gyda disgyblion yn dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Iau Llangennech yw £3,511.  Mae hyn yn cymharu gydag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin.  Mae hyn yn gosod yr ysgol yn safle 64 o’r brig o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

Mae’r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers Medi 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae safonau cyflawniad disgyblion yn gyson uchel;
- mae gallu disgyblion ar draws yr ysgol i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn rhagorol;
- mae'r addysgu yn yr ysgol yn gyson dda; ac
- mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau allweddol disgyblion.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- mae gan yr ysgol hanes llwyddiannus o sicrhau gwelliant parhaus mewn safonau;
- mae gan arweinyddiaeth yr ysgol weledigaeth eglur, sy'n ystyried llais pob rhan-ddeiliad wrth ddatblygu cyfeiriad strategol; ac
- mae'r arfer o rannu arfer dda o fewn a thu hwnt i'r ysgol, a rhoi cyfleoedd cyson i staff ddatblygu a meistroli sgiliau newydd, yn sicrhau diwylliant o ymchwil parhaus am ragoriaeth mewn dysgu ac addysgu.

## Argymhellion

Er mwyn parhau i wella, mae angen i’r ysgol:

A1 godi safonau gwaith bechgyn;

A2 cynyddu hyder a pharodrwydd disgyblion y ffrwd Saesneg i ddefnyddio’r Gymraeg yn naturiol mewn sefyllfaoedd tu allan i’r dosbarth; ac

A3 adeiladu ar lwyddiant y gweithdrefnau hunanarfarnu cyfredol fel eu bod yn cynnwys pob agwedd o fywyd yr ysgol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu ar draws meysydd dysgu amrywiol. Mae gallu llafar disgyblion ym mhen uchaf yr ysgol yn dda iawn. Gallant drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl iaith y dosbarth, gan ddefnyddio geirfa eang. Mae eu gwybodaeth o eirfa sy'n benodol i'r meysydd dysgu yn arbennig o dda.

Mae disgyblion y ffrwd Gymraeg yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur, ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r modd y mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn rheolaidd yn nodwedd gref.

Yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg ar draws yr ysgol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyrraedd safonau da mewn Cymraeg ail iaith, yn arbennig ym mlynyddoedd isaf yr ysgol. Maent yn sgwrsio'n effeithiol, yn darllen yn gywir a chyda mynegiant, ac yn ysgrifennu i safon briodol o fewn cyd-destun eu gwersi. Fodd bynnag, tu allan i'r cyd-destun hwnnw, ni all llawer o'r disgyblion gynnal sgwrs estynedig. Maent yn ddihyder ac amharod i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Mae canlyniadau asesiadau statudol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn dangos bod y disgyblion yn cyrraedd safonau sy'n gyson uwch na chyfartaledd Cymru. Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 2 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru, mae canlyniadau'r ysgol yn gyson yn y 50% uchaf ym mhob pwnc a'r dangosydd pynciau craidd (DPC – y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth), gan gyrraedd y 25% uchaf mewn Cymraeg yn 2010. Mae cynnydd cyffredinol yng nghyflawniadau disgyblion ym mhob pwnc craidd dros gyfnod o bedair blynedd.

Dros dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol o fewn y teulu o ysgolion yn sylweddol uwch na'r disgwyl. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig (Lefel 4+) a'r lefelau ymestynnol (Lefel 5+) yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion ym mhob un o'r pynciau craidd a'r dangosydd pynciau craidd.

Mae gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniadau bechgyn a merched, sy'n fwy na'r bwlch cyfatebol yn y teulu a Chymru. Fodd bynnag, mae canlyniadau bechgyn yr ysgol yn gyson uwch na chyfartaledd canlyniadau bechgyn y teulu o ysgolion.

## Lles: Rhagorol

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn aeddfed iawn eu mynegiant a'u hymddygiad. Yn gyffredinol drwy'r ysgol, mae gan bron pob ohonynt ddiddordeb a balchder mawr yn eu gwaith. Maent yn ymrwymo'n frwdfrydig iawn i'w tasgau, yn mwynhau eu gwaith, ac yn ei drafod yn ddeheuig. Mae'r disgyblion bron i gyd yn cyfrannu syniadau mewn gwersi ac yn cymryd rhan yn hyderus iawn mewn trafodaethau. Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn gofyn cwestiynau aeddfed a deallus yn ystod y gwersi. Maent bron i gyd yn datgan a chyfiawnhau barn yn ddibetrus, gan ddangos safon uchel iawn o allu i ymresymu. Yn ddieithriad, maent yn cydweithio'n effeithiol iawn o fewn y dosbarth, mewn grwpiau bychain ac fel parau.

Mae ymddygiad y disgyblion drwyddi draw yn ardderchog. Maent yn gwrtais a serchog ac yn dangos parch a charedigrwydd at ei gilydd. Mae'r parch hwn yn nodwedd amlwg o ymddygiad y plant mewn sefyllfaoedd anffurfiol hefyd, er enghraifft allan ar yr iard ac yn y clybiau ar ôl ysgol.

Mae lefelau presenoldeb wedi dangos cynnydd cyson dros y flwyddyn ddiwethaf, a bellach wedi cyrraedd 94.06%, sy'n cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru.

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae gan bob un agwedd bositif tuag at fwyta'n iach ac yn mwynhau gweithgareddau corfforol. Mae disgyblion yn manteisio ac yn elwa ar gyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau gan cynnwys y cynghorau eco ac ysgol, ac fel swyddogion. O ganlyniad, maent yn datblygu hyder ac agweddau positif a pharch at eraill.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn ateb anghenion disgyblion yn briodol. Mae ffocws amlwg ar ddatblygu medrau'r disgyblion ym mron pob un o'r cynlluniau gwaith pynciol, gan gynnwys y cynlluniau tymor byr. Llwydda'r ysgol i sicrhau bod cysondeb rhwng y ddwy ffrwd ieithyddol yn ystod profiadau dysgu disgyblion, gan gynnwys datblygiad medrau.

Mae'r athrawon yn rhoi pwyslais da ar ateb anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn meysydd penodol.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei ddatblygu'n drwyadl yn y gwaith mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth, a hefyd yng ngweithgareddau'r cyngor eco. Mae amgylchedd allanol yr ysgol, gan gynnwys yr ardd lysiau a'r mannau dysgu allanol, yn datblygu i fod yn gyfraniad gwerthfawr i brofiadau'r disgyblion.

Mae cysylltiadau gyda'r gymuned a chyflogwyr lleol yn rhoi profiadau priodol ac uniongyrchol i'r disgyblion o fyd gwaith a gweithgareddau menter, gan gynnwys gwaith gyda chwmni lleol i ddatblygu gardd a gwaith entrepreneuriaeth. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau gydag ystod o sefydliadau lleol i roi profiadau amrywiol a pherthnasol.

Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i ddatblygu ethos o Gymreictod. Mae arddangosfeydd pwrpasol yn y dosbarthiadau a'r coridorau yn cynnwys geirfa addas sy'n hybu gallu'r disgyblion i ddatblygu'r Gymraeg ac agweddau positif at Gymreictod.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu o ansawdd da ar draws yr ysgol yn sicrhau lefelau uchel o ddiddordeb yn y gwaith a chymhelliant da. Mae'r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o gwestiynau yn fedrus i gadarnhau dealltwriaeth disgyblion a hefyd eu herio i feddwl. Caiff disgyblion eu hannog i ddefnyddio'u medrau meddwl ar draws pob maes o'r cwricwlwm, yn enwedig mewn celf a dylunio, Saesneg a daearyddiaeth. Mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn glir a chywiro unrhyw gamsyniadau'n gyflym.

Mae perthynas gadarnhaol a chynhaliol rhwng staff a disgyblion. O ganlyniad, mae hyder gan y disgyblion i fentro ac i ddysgu o'u camgymeriadau. Caiff ymddygiad ei reoli'n dda ac mae gan staff ddisgwyliadau uchel ynghylch sut dylai disgyblion ymddwyn.

Caiff cynnydd disgyblion wrth ddysgu ei asesu'n rheolaidd ac yn gywir. Mae system effeithiol ar waith i olrhain cyflawniadau disgyblion. Mae staff addysgu a chynorthwywyr dysgu yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion ac i helpu'r disgyblion wybod beth sy'n rhaid iddynt ei wneud i wella. Mae strategaethau 'asesu ar gyfer dysgu' yn weithredol ar draws pob dosbarth. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau i rieni a gofalwyr yn glir ac yn llawn gwybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau, gweithdrefnau a phrofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol a'u lles.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i ddisgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, caiff disgyblion eu hannog i gerdded i'r ysgol, i dyfu llysiau ac i fwyta'n iach. Yn yr awyr agored, yn enwedig y llwybr gweithgareddau, caiff disgyblion eu hannog disgyblion i gadw'n heini. Ym Mlynyddoedd 3 a 4, mae disgyblion yn elwa ar gael sesiynau '*Wake-up, Shake-up*' yn yr awyr agored, sy'n gwella lefelau canolbwyntio a'u ffitrwydd corfforol cyffredinol.

Mae'r trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion sy'n dechrau'r ysgol a'r trefniadau ar gyfer cyfnod pontio'r disgyblion i ysgol uwchradd yn drylwyr.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff disgyblion sydd angen help ychwanegol â'u medrau sylfaenol eu nodi'n effeithiol. Mae cynorthwywyr dysgu yn rhoi cymorth o ansawdd da i'r disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau arbenigol yn briodol, yn enwedig gwasanaethau iaith a lleferydd, i ymestyn ei darpariaeth. Er bod yr ysgol wedi nodi disgyblion sy'n fwy galluog a dawnus, megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a chynhwysol, gydag ansawdd cydberthnasoedd yn nodwedd gref. Mynegodd 100% o'r plant yn yr holiaduron bod y staff yn eu parchu hwy a'u cefndir ac yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd gwahanol. Mae'r ysgol yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer eu camau nesaf mewn bywyd.

Mae polisiau, cynlluniau a gweithdrefnau priodol yn weithredol i sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae safle eang yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer cyfoethogi profiadau chwarae a dysgu. Mae'r ardd yn cael ei defnyddio'n bwrpasol i dyfu a gwerthu llysiau. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn fawr eu maint gydag adnoddau digonol ar gyfer dibenion y cwricwlwm.

Drwy'r ysgol i gyd, mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus sy'n hybu a chyfoethogi dysgu disgyblion. Mae'r toiledau yn lân ac addas a chaiff yr holl safle a'r adeilad eu cadw'n raenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ynglŷn â chyfeiriad a strategaeth tymor hir yr ysgol, a pharodrwydd i ystyried llais pob rhan-ddeiliad, er enghraifft trwy'r fforwm rhieni, holiaduron pwrpasol, a'r cyngor ysgol.

Mae'r uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn adnabod safonau'n drylwyr ac yn datblygu strategaethau i fynd i'r afael ag ystod o faterion. O ganlyniad, mae polisïau newydd wedi arwain at welliannau arwyddocaol yn lefelau presenoldeb, ynghyd ag ymddygiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol nodau clir a chytunedig. Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm ac yn rhannu'r un gwerthoedd. O ganlyniad i arweiniad y tîm rheoli, mae cysondeb yn ansawdd dogfennau cynllunio'r ysgol, ac yn y dulliau addysgu.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli o safbwynt rheoli perfformiad a hyfforddi staff. Yn ddiweddar, sefydlwyd system reoli perfformiad ar gyfer y cynorthwywyr dysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn llawn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae rhaglen yn ei lle ar gyfer ymweliadau dosbarth, trafodaethau â'r cydlynwyr pynciol, ac adrodd yn ôl ar lafar i'r corff llywodraethol. O bryd i'w gilydd, bydd athrawon yn mynychu cyfarfod y llywodraethwyr i adrodd ar bynciau penodol.

Mae camau positif wedi eu cymryd i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, mewn meysydd fel asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac effeithiol.  Maent yn defnyddio ystod briodol o ffynonellau gwybodaeth.

Mae gwybodaeth a ddaw o hunanarfarnu yn arwain yn glir at sefydlu blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.  Mae'r holl staff addysgu yn chwarae rhan mewn nodi blaenoriaethau yn y cynllun ac maent yn glir ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud er mwyn parhau i wella.  Mae costau'n cael eu nodi'n briodol yn y cynllun datblygu ysgol ac mae'r cynllun yn cynnwys meini prawf llwyddiant y gellir eu mesur, lle bo hynny'n briodol.

Mae parodrwydd i adolygu a sicrhau gwelliant parhaus yn treiddio drwy waith holl staff yr ysgol.  Caiff gwybodaeth ac arbenigedd eu rhannu'n barod.  Mae datblygiad proffesiynol o'r fath yn effeithio'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.  Cafodd hyfforddiant mewnol ar reoli ymddygiad ei ategu drwy ymweliad gan rai staff â'r ysgol arbennig leol a thrwy rannu arfer dda a syniadau gyda'r ysgol fabanod.

Mae'r ysgol, drwy'r pennaeth, yn arwain y gwaith o sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol ar draws y teulu o ysgolion.

Mae'r ysgol yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau rhieni a disgyblion ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt.  Mae'r fforwm rhieni wedi bod yn allweddol o ran gwella arfer gwaith cartref yn yr ysgol.  Mae datblygu'r ardal ddysgu yn yr awyr agored yn enghraifft dda o'r ffordd y mae barn disgyblion yn dylanwadu ar flaenoriaethau'r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr.  Derbynia rhieni wybodaeth gyfredol am gynnydd disgyblion, strategaethau dysgu newydd a llwyddiannau'r ysgol.  Mae'r cylchlythyr rheolaidd yn lliwgar a deniadol, ac yn rhoi darlun da iawn o gyflawniadau'r disgyblion.

Mae athrawon yr ysgol yn cydweithio'n dda ag athrawon yr ysgol fabanod i sicrhau cyfnod trosglwyddo llwyddiannus i ddosbarthiadau Blwyddyn 3 a dilyniant a pharhad mewn dulliau addysgu.  Mae rhai polisïau, megis gweithdrefnau disgyblaeth, bellach yn cael eu rhannu gan y ddwy ysgol.

Mae athrawon yr ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i gynllunio profiadau dysgu a chymdeithasol gwerthfawr i hwyluso'r cyfnod pontio.  Mae gwaith cymedroli effeithiol yn digwydd yn y pynciau craidd, yn cynnwys paratoi pecynnau safoni ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod allweddol, gydag athrawon o'r ysgol yn arwain y gwaith mewn gwyddoniaeth a mathemateg.

Ceir cysylltiadau adeiladol gyda busnesau lleol, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.

Mae gwefan ddeniadol a lliwgar yr ysgol yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ar gyfer rhieni a rhan-ddeiliaid eraill.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arian er mwyn sicrhau lefel briodol o staff sydd wedi eu hyfforddi yn gymwys i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae staff cynorthwyol yr ysgol yn rhan bwysig ac effeithiol o'r tîm ac yn cael dylanwad positif ar y dysgu ac addysgu. Gweithreda'r cydlynwyr yn bwrpasol i wella'r ddarpariaeth er mwyn datblygu ymhellach eu meysydd.

Darpara'r ysgol hyfforddiant addas ar ffurf cyrsiau unigol a chyrsiau hyfforddiant ar y cyd. Gwna'r ysgol y defnydd gorau posib o'r adnoddau i atgyfnerthu profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae holl staff yr ysgol wedi cydweithio'n effeithiol er mwyn creu amgylchedd cyffrous a deniadol y tu allan a thu fewn i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac yn ei defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i holiaduron dysgwyr

Ymatebodd 96 o ddisgyblion i'r holiadur. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod beth i'w wneud ac at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt wrth eu gwaith. Cred bron pob disgybl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod yr athrawon a staff eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent yn credu bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith a bod digon o adnoddau pwrpasol, gan gynnwys cyfrifiaduron, yn yr ysgol iddynt wneud eu gwaith. Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw achos o fwlio, ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni neu ofidio. Maent yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a rhoi llawer o gyfleoedd rheolaidd iddynt gael ymarfer corff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae, amser cinio ac yn ystod y gwersi.

### Ymateb i holiaduron rhieni

Ymatebodd 58 o bobl i'r holiadur, sef tua traean y rhieni â phlant yn yr ysgol. Mae pob rhiant yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, yn credu bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn ddiogel yno. Maent yn datgan bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol ar ôl cael cymorth i ymgartrefu'n dda yno. Credant fod yr addysgu'n dda a bod athrawon a staff yr ysgol yn disgwyl i'r disgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. Caiff rhieni wybodaeth gyson ar gynnydd eu plant, ac mae gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo y caiff disgyblion gefnogaeth dda yn ôl eu hanghenion, ac yn teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau i'r ysgol. Teimlant fod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb yn yr ysgol. Ym marn y rhan fwyaf o rieni, mae'r ysgol yn annog eu plant i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn credu bod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys ymweliadau addysgol, ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Bev Jenkins | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Branwen Llewellyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gary Anderson | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |